### Tablau

Gwnewch grid tablau fel hwn.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| 2 | 4 | 6 | 8 | 10 | 12 | 14 | 16 | 18 | 20 |
| 3 | 6 | 9 | 12 | 15 | 18 | 21 | 24 | 27 | 30 |
| 4 | 8 | 12 | 16 | 20 | 24 | 28 | 32 | 36 | 40 |
| 5 | 10 | 15 | 20 | 25 | 30 | 35 | 40 | 45 | 50 |
| 6 | 12 | 18 | 24 | 30 | 36 | 42 | 48 | 54 | 60 |
| 7 | 14 | 21 | 28 | 35 | 42 | 49 | 56 | 63 | 70 |
| 8 | 16 | 24 | 32 | 40 | 48 | 56 | 64 | 72 | 80 |
| 9 | 18 | 27 | 36 | 45 | 54 | 63 | 72 | 81 | 90 |
| 10 | 20 | 30 | 40 | 50 | 60 | 70 | 80 | 90 | 100 |


- Lliwiwch y ffeithiau tablau y mae eich plentyn yn eu gwybod, 1, 2, 3, 4, 5 a 10 yn fwy na thebyg.
- Mae rhai ffeithiau yn ymddangos ddwywaith, e.e. 7 x 3 a 3 x 7, felly croeswch allan un o bob un.
- Ydych chi'n synnu cyn lleied o ffeithiau sydd ar ôl?
- Efallai mai dim ond 10 ffaith sydd i'w dysgu. Felly, cymerwch un ffaith bob dydd a gwneud rhigwm digri gyda'ch gilydd er mwyn helpu'r plentyn i'w ddysgu
  e.e. *naw saith yw chwe deg tri, nawr am lot o hwyl a sbri!*

### Her y rhifau ffôn

- Rhowch her i'ch plentyn i ddod o hyd i rifau yn y llyfr ffôn lle mae'r digidau yn adio i wneud 42.
- Dowch o hyd i gymaint ag sy'n bosib mewn 10 munud.
- Ar ddiwrnod arall, beth am weld a all guro'r cyfanswm blaenorol?

**Ffôn: 01264 738 281**


### Targedu 1000



- Rholiwch ddis 6 gwaith.
- Defnyddiwch y chwe digid i wneud dau rif tri digid.
- Adiwch y ddau rif at ei gilydd.
- Pa mor agos at 1000 allwch chi gyrraedd?

# Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 5

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn




## Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

# Targedau – Blwyddyn 5 2

**Erbyn diwedd Blwyddyn 5, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu …**

- ☐ Lluosi a rhannu unrhyw gyfanrif hyd at 10 000 â 10 neu 100.
- ☐ Gwybod beth yw arwyddocâd y digidau mewn rhif degol, e.e. mae'r 6 yn 2.63 yn golygu 6 degolyn a'r 3 yn golygu 3 chanfed.
- ☐ Talgrynnu rhifau ag 1 lle degol i'r cyfanrif agosaf, e.e. bydd 9.7 yn talgrynnu i 10, a bydd 147.2 yn talgrynnu i 147.
- ☐ Defnyddio rhannu i ddod o hyd i ffracsiwn rhif, e.e. dod o hyd i bumed drwy rannu â 5.
- ☐ Cyfrifo yn eu pen y gwahaniaeth rhwng dau rif fel 3994 a 9007.
- ☐ Defnyddio papur a phensil i adio a thynnu rhifau mawr, e.e. 5792 + 8436, 13 912 – 5829.
- ☐ Gwybod yr holl dablau lluosi hyd at 10 x 10 ar eu cof.
- ☐ Dyblu rhifau hyd at 100 yn eu pen.
- ☐ Defnyddio papur a phensil i luosi a rhannu, e.e. 328 x 4, 72 x 56, 329 ÷ 6.
- ☐ Tynnu llinellau a'u mesur i'r milimetr agosaf.
- ☐ Cyfrifo perimedr ac arwynebedd petryal, e.e. perimedr ac arwynebedd clawr llyfr sy'n mesur 25cm wrth 20cm.
- ☐ Datrys problemau geiriau ac esbonio'u dull.

## Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai plant allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 5.

Mae'n bosib bod targed yn fwy anodd mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant yn tynnu 3994 o 9007 drwy ysgrifennu mewn colofnau heb sylweddoli ei bod yn haws cyfrif ymlaen o 3994 i 9007 yn eu pen.


## Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

### Rhifau ceir

- Ceisiwch ddarllen rhif car fel mesuriad mewn centimetrau, yna ei newid i fetrau, e.e. 456cm, sef 4.56m, neu 4m a 56cm.
- Ceisiwch wneud hyn gyda rhifau ceir â sero ynddynt, e.e. 307cm, sef 3.07m neu 3m a 7cm; 370cm, sef 3.7m, neu 3m a 70cm. Mae'r rhain yn fwy anodd!

### Tynnu gyda dis

- Cymerwch dro i rolio dis ddwywaith.
- Llenwch y bocsys sy'n wag.



400☐ - 399☐

e.e. 4002 – 3994

- Cyfrifwch ymlaen o'r rhif lleiaf i'r rhif mwyaf, e.e *3995, 3996, 3997, 3998, 3999, 4000, 4001, 4002.*
- Fe gyfrifoch ymlaen 8, felly rydych chi'n sgorio 8 pwynt.
- Cadwch gyfanswm o'ch pwyntiau wrth fynd ymlaen.
- Y cyntaf i gyrraedd 50 pwynt neu fwy sy'n ennill.